2 Hydref 2014

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Rheoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Lleol 2012-13

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Roedd y tîm a fu’n gyfrifol am lunio’r adroddiad hwn yn cynnwys Kevin Thomas a Deryck Evans.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o’r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae’n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy’n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo’r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i’r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna’r sefydliadau hynny o’u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella’r defnydd hwnnw.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae’n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â’i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi’i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2014

Cewch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Rheoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Lleol 2012-13

Mae gan bob corff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys cynghorau tref a chymuned, (cynghorau lleol) gyfrifoldeb i ddinasyddion Cymru i ystyried y modd y maent yn stiwardio'r arian cyhoeddus yn eu gofal. Y brif ffordd o wneud hyn yw drwy baratoi cyfrifon blynyddol sy'n destun archwiliad allanol annibynnol.

Ym mis Medi 2013, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol Gwella Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol: Materion yn deillio o Archwilio Cyfrifon Cyngor Cymuned 2011-12, gan dynnu sylw at y materion mwyaf cyffredin a nodwyd gan archwilwyr ledled Cymru. Nododd 'wendidau systemig y mae angen i gynghorau lleol fynd i'r afael â nhw'. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y cynnydd a wnaed gan gynghorau lleol i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn a nodi meysydd y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn canolbwyntio arnynt wrth archwilio cyfrifon 2015-16.

# Cynnwys


1 Dengys materion a nodwyd yn yr archwiliad o gyfrifon 2012-13 angen parhaus i gynghorau lleol wella eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu er mwyn mynd i'r afael â gwendidau systematig sy'n aml yn arwain at amodau cyfrifyddu 6

Er bod amseroldeb cyfrifon wedi gwella yn 2012-13, mae cryn le i wella ansawdd y cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio o hyd 7

Er bod lleihad bach wedi'i weld yn nifer yr amodau, erys lefel y farn amodol yn rhy uchel ac maent yn cwmpasu ystod eang o faterion 9

Cyflawnodd archwilwyr eu dyletswyddau statudol i wneud argymhellion statudol i wneud argymhellion mewn tri chyngor mewn perthynas â chyfrifon 2012-13 15

2 Er mwyn helpu cynghorau i wella eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu, bydd archwilwyr cynghorau lleol, ar gyfer archwiliad 2015-16, yn archwilio trefniadau cynghorau ar gyfer pennu a monitro cyllidebau ac ar gyfer defnyddio gwasanaethau archwilwyr mewnol 20

Bydd archwilwyr yn archwilio trefniadau cynghorau ar gyfer pennu a monitro cyllidebau 21

Bydd archwilwyr yn adolygu'r telerau ymgysylltu ar gyfer archwilwyr mewnol 22

Atodiadau

Atodiad 1 – Honiadau Datganiad Llywodraethu Blynyddol 24

Rhan 1

# Dengys materion a nodwyd yn yr archwiliad o gyfrifon 2012-13 angen parhaus i gynghorau lleol wella eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu er mwyn mynd i'r afael â gwendidau systematig sy'n aml yn arwain at amodau cyfrifyddu



## Er bod amseroldeb cyfrifon wedi gwella yn 2012-13, mae cryn le i wella ansawdd y cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio o hyd

1 Er mwyn lleihau'r gost a'r amser sydd ei angen i gynnal yr archwiliad, mae'n bwysig bod cynghorau'n rhoi'r wybodaeth ofynnol i'r archwilydd, a bod y wybodaeth honno'n gyfredol, yn gyflawn ac yn gywir. Ar gyfer 2011-12, nododd yr Archwilydd Cyffredinol nad oedd hyn yn aml yn wir yn achos cynghorau lleol yng Nghymru, a nodwn isod y cynnydd a wnaed yn 2012-13.


### Gwelwyd ychydig o welliant yn amseroldeb y broses o lunio cyfrifon archwiliedig

2 Mae Llywodraeth Cymru'n annog mwy o dryloywder gan gyrff cyhoeddus i egluro sut maent yn defnyddio arian cyhoeddus. Mae gan etholwyr lleol yr hawl i weld sut mae eu cyngor lleol wedi gwario'r arian a gasglwyd ganddo o ffioedd a thaliadau neu drwy'r praesept blynyddol, o'r dreth gyngor. Nid yw cynghorau sy'n methu â chyhoeddi ffurflen flynyddol yn amserol yn darparu'r lefel ofynnol o atebolrwydd cyhoeddus.

3 Nod archwilwyr yw cwblhau eu gwaith archwilio a chyhoeddi eu tystysgrif a'u barn mewn da bryd i alluogi cynghorau lleol i gyhoeddi eu ffurflen flynyddol gyda barn archwilio erbyn 30 Medi fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

4 Fel y dangosir yn Arddangosyn 1, erbyn 30 Medi 2013, roedd archwilwyr wedi cyhoeddi'r farn a'r dystysgrif ar ffurflen flynyddol 2012-13 mewn 669 o gynghorau (91 y cant) o gymharu â dim ond 646 o gynghorau (87 y cant) ar gyfer cyfrifon 2011-12. Erbyn 31 Rhagfyr 2013, roedd nifer yr archwiliadau a gwblhawyd wedi

Arddangosyn 1 – Cwblhau gwaith archwilio ar gyfrifon rhwng 2011-12 a 2012-13



cynyddu i 721 (98 y cant) o gymharu â 716 (97 y cant) ym mis Rhagfyr 2012. Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu bod bron 20 o gynghorau o hyd nad oeddent wedi cael barn archwilio dri mis ar ôl y dyddiad cau. Mae'r oedi hwn yn deillio o'r ffaith nad yw cynghorau'n rhoi tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r farn archwilio, yn methu ag anfon ffurflenni blynyddol a gymeradwywyd at yr archwilydd, neu faterion parhaus.

5 Noda Arddangosyn 2, yn ogystal â ffurflenni blynyddol hwyr 2012-13, er gwaethaf amryw negeseuon atgoffa gan archwilwyr, ar 30 Medi 2013, fod saith cyngor wedi methu â chynhyrchu neu ddarparu tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r ffurflen flynyddol am hyd at bedair o'r blynyddoedd ariannol blaenorol.

6 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn pryderu am y methiant parhaus i gyhoeddi ffurflen flynyddol archwiliedig yn amserol. Yn ei farn ef, mae'n annerbyniol bod cynghorau lleol a ariennir gan arian cyhoeddus yn methu â chyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol i baratoi datganiadau o gyfrifon i'w harchwilio. Ar 31 Rhagfyr 2013, roedd gan y cynghorau canlynol archwiliadau heb eu cwblhau a oedd yn agored o hyd oherwydd:

a roedd y cyngor wedi methu â pharatoi cyfrifon blynyddol na darparu tystiolaeth ddigonol i alluogi archwilwyr i roi barn ac felly gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y ddeddf; neu

b roedd yr archwilydd yn gwneud gwaith ychwanegol i ystyried afreoleidd-dra posibl.

7 Ar gyfer cyfrifon 2013-14 lle mae gan gyngor archwiliadau cyfrifon dwy flynedd neu fwy ar agor ar 30 Medi 2014, bydd archwilwyr penodedig yn ystyried pa un a ddylid nodi er budd y cyhoedd yr amgylchiadau sydd wedi arwain at yr oedi annerbyniol hwn. Bydd hyn yn arwain at gostau ychwanegol i'r cynghorau.

Arddangosyn 2 – Cynghorau lle roedd archwiliadau blynyddoedd blaenorol ar agor o hyd ar 30 Medi 20013

| | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Glyn-nedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyngor Cymuned Machynlleth | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyngor Cymuned Banwy | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyngor Cymuned St Florence | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyngor Cymuned Cwm Ogwr | | | | ✓ | ✓ |
| Cyngor Cymuned Mawr | | | | ✓ | ✓ |

### Mae cryn le i wella ansawdd ffurflenni blynyddol a gwybodaeth ategol o hyd

8 Mae'r gofynion cyfrifyddu ar gyfer cynghorau lleol yn syml ac mae gan bob cyngor gopi o'r Canllaw i Ymarferwyr er mwyn eu helpu i baratoi eu cyfrifon yn barod i'w harchwilio. Cynlluniwyd y ffurflen flynyddol ei hun i fod yn hawdd ei chwblhau ac mae'n ofynnol i gynghorau sicrhau eu bod ond yn rhoi gwybodaeth gyfyngedig berthnasol i archwilwyr. Fodd bynnag, mewn perthynas â chyfrifon 2011-12, nododd yr Archwilydd Cyffredinol gryn broblemau gydag ansawdd y ffurflenni blynyddol a'r wybodaeth ategol a roddwyd i'r archwilwyr penodedig. Awgryma'r dystiolaeth a roddwyd gan yr archwilwyr ar gyfer cyfrifon 2012-13 mai ychydig iawn o gynnydd a wnaed ac mae cryn le i wella ar draws y sector o hyd.

9 Mae un o'r archwilwyr penodedig wedi nodi bod 147 o gynghorau o gyfanswm o 244 o gynghorau (60 y cant) wedi cyflwyno ffurflenni blynyddol ar gyfer 2012-13 yr oedd angen eu diwygio mewn rhyw ffordd. Mae'n destun pryder bod cynifer o gynghorau'n cyflwyno ffurflenni blynyddol i'w harchwilio y mae angen eu cywiro yn ystod yr archwiliad. Yn y rhan fwyaf o achosion, mân hepgoriadau ydynt, ee enwau cynghorau ar goll. Mewn achosion eraill, mae'r hepgoriadau'n fwy sylweddol ee diffyg llofnod i gadarnhau bod y swyddog ariannol cyfrifol wedi ardystio'r cyfrifon neu ddiffyg ymatebion i honiadau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

10 Noda archwilwyr hefyd fod angen iddynt yn aml gysylltu â chynghorau er mwyn gofyn am wybodaeth y dywedwyd eisoes wrth y cynghorau fod angen iddynt ei rhoi er mwyn cwblhau'r archwiliad. Mae un archwilydd wedi nodi nad oedd 38 o blith y 179 o gynghorau (21 y cant) wedi darparu'r wybodaeth ofynnol i gynnal archwiliad 2012-13 pan ofynnwyd iddynt yn gyntaf am y wybodaeth.

11 Mae'r methiannau hyn i ddarparu ffurflenni blynyddol a gwybodaeth ategol gyflawn a chywir yn ychwanegu at y gost o gynnal yr archwiliad. Ar gyfer archwiliadau 2013-14 a thu hwnt, bydd yn ofynnol i archwilwyr penodedig adennill cost lawn y gwaith archwilio ac felly, byddant yn codi ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn. Gall y cynghorau hyn osgoi costau ychwanegol o'r fath.

## Er bod lleihad bach wedi'i weld yn nifer yr amodau, erys lefel y farn amodol yn rhy uchel ac maent yn cwmpasu ystod eang o faterion

12 Mae archwilwyr yn amodi eu barn ar y ffurflen flynyddol oherwydd materion a nodwyd yn y datganiad cyfrifyddu a/neu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Gall amod ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ymwneud ag un neu fwy o honiadau a wnaed gan y Cyngor.

13 Dylid nodi y gellir osgoi holl amodau barn archwilio os oes gan gynghorau unigol drefniadau rheoli ariannol a llywodraethu digonol ac effeithiol ar waith a'u bod yn dilyn y camau syml sydd eu hangen i baratoi cyfrifon blynyddol a'u cyflwyno i'w harchwilio.

## Mae lefel annerbyniol o uchel o farn archwilio amodol, ac mae rhai cynghorau'n cael barn archwilio amodol ar gyfer mwy nag un mater

14 Rhoddodd archwilwyr farn archwilio amodol ar 113 o'r ffurflenni blynyddol a gyflwynwyd ar gyfer cynghorau yn 2012-13 (15 y cant). Yn 2011-12, cafodd 130 o gynghorau (17 y cant) farn archwilio amodol. Er bod hyn yn gynnydd bach o gymharu ag archwiliadau 2011-12, mae'n parhau'n annerbyniol o uchel ac mae bron un o bob saith cyngor yn methu â chyrraedd y safonau llywodraethu gofynnol. Mae angen i gynghorau lleol barhau i ganolbwyntio ar wella eu trefniadau llywodraethu a chydymffurfiaeth.

15 Amododd archwilwyr farn archwilio 36 o gynghorau ar gyfer dau fater ar wahân neu fwy. Yn 2011-12, dim ond 26 o gynghorau a gafodd farn archwilio amodol ar gyfer mwy nag un mater.

16 Mae Arddangosyn 3 yn nodi'r 38 o gynghorau (pump y cant) a dderbyniodd farn archwilio amodol ar gyfer 2011-12 a 2012-13. Awgryma'r amodi cyson mewn perthynas â barn archwilio yn y cynghorau hyn fod gwendidau systemig yn eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu. Mewn 26 o achosion, nododd archwilwyr un neu fwy o'r un achosion yn y ddwy flwyddyn. Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, mae'n annerbyniol bod Cynghorau'n methu â mynd i'r afael â gwendidau yn eu trefniadau llywodraethu pan fydd yr archwilydd allanol yn dwyn y materion hyn i'w sylw.

### Arddangosyn 3 – Cynghorau â barn archwilio amodol ar gyfer 2011-12 a 2012-13

| Cyngor | 2011-12 | 2012-13 | Nodwyd yr un materion yn y ddwy flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Aber | ✓ | ✓ | |
| Pwyllgor Claddu Abergele | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Alaw | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Botwnnog | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Tref Llansawel | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Bryneglwys | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Capel Curig | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Cilcain | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Cosheston | ✓ | ✓ | Do |

| Cyngor | 2011-12 | 2012-13 | Nodwyd yr un materion yn y ddwy flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Cynwyd | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Dinas | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned y Faenor | ✓ | ✓ | |
| Cyngor Cymuned Henryd | ✓ | ✓ | |
| Cyngor Tref Cydweli | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Cilâ | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Llanberis | ✓ | ✓ | |
| Cyngor Cymuned Llandysiliogogo | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Llaneugrad | ✓ | ✓ | |
| Cyngor Cymuned Llanfachraeth | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Llanfarian | ✓ | ✓ | |
| Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Llangristiolus | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Llangwm | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Llangybi Fawr | ✓ | ✓ | |
| Cyngor Cymuned Llangynwyd Isaf | ✓ | ✓ | |
| Cyngor Cymuned Llysfaen | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Maentwrog | ✓ | ✓ | |
| Cyngor Cymuned Moelfre | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Nannerch | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Nantglyn | ✓ | ✓ | Do |

| Cyngor | 2011-12 | 2012-13 | Nodwyd yr un materion yn y ddwy flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Pentir | ✓ | ✓ | |
| Cyngor Cymuned Pont-y-clun | ✓ | ✓ | |
| Cyngor Cymuned Queensferry | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Rhoscolyn | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Scleddau | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Trefeurig | ✓ | ✓ | |
| Cyngor Cymuned Chwitffordd | ✓ | ✓ | Do |
| Cyngor Cymuned Ysbyty Ystwyth | ✓ | ✓ | Do |


17 Os yw'r amodau hyn yn deillio o fethiant y cyngor i gymryd camau priodol i fynd i'r afael â materion y tynnwyd ei sylw atynt yn flaenorol, anogir archwilwyr penodedig i ystyried pa un a yw'r materion hyn yn rhai y dylid tynnu sylw'r cyhoedd atynt ar lefel leol. Ar gyfer 2013-14, bydd archwilwyr penodedig yn ystyried pa un a yw'r materion hyn yn rhai y dylid hysbysu eu cymunedau amdanynt er budd y cyhoedd a pha un a ddylid gwneud argymhellion statudol ar gyfer gwella. Os bydd archwilwyr yn arfer y pwerau hyn, bydd cost ychwanegol i'r cyngor yn nhermau ffioedd archwilio ychwanegol ac o bosibl gyhoeddusrwydd lleol anffafriol.

## Mae archwilwyr yn amodi eu barn ar gyfer ystod eang o faterion

18 Mae'r rhan fwyaf o gymwysterau'n ymwneud â'r honiadau a wnaed gan gynghorau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, mae cynghorau'n gwneud datganiad cadarnhaol eu bod wedi gwneud popeth sy'n ofynnol ohonynt. Mae Atodiad 1 i'r adroddiad hwn yn nodi'r honiadau a wnaed gan gynghorau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac yn rhoi esboniad byr o'r hyn y mae'r sicrwydd a roddwyd gan gyngor yn ei olygu.

19 Mae llawer o achosion, pan fydd archwilwyr yn archwilio'r honiadau hyn, byddant yn gweld nad yw cynghorau mewn gwirionedd wedi bodloni'r gofynion cysylltiedig. Mewn achosion o'r fath, mae archwilwyr yn amodi eu barn archwilio. Dengys Arddangosyn 4 nifer yr honiadau yn ymwneud â phob un o'r honiadau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae rhai cynghorau lleol wedi cael barn amodol yn ymwneud â dau honiad neu fwy.

Arddangosyn 4 – Nifer yr amodau sy’n ymwneud â phob honiad yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol




20 Mae Arddangosyn 4, er ei bod yn dangos nifer sylweddol o amodau yn erbyn sawl honiad yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn dangos rhywfaint o welliant o gymharu â 2011-12. Yn benodol, mae’n bleser nodi bod nifer yr amodau a roddwyd mewn perthynas â methiant cynghorau i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau, rheoliadau a chodau ymddygiad wedi lleihau’n sylweddol (honiad 3).

21 Y rheswm mwyaf cyffredin dros amodau yn ymwneud â’r Datganiad Llywodraethu Blynyddoedd oedd methiant i baratoi cyfrifon ar amser (honiad 1).

22 Mae’r rheswm mwyaf cyffredin nesaf dros amodau yn ymwneud ag asesu a rheoli risgiau ariannol a risgiau eraill (honiad 5). Mae’r rheoliadau statudol yn nodi bod cynghorau lleol yn gyfrifol am sicrhau a rhoi system rheolaeth fewnol gadarn ar waith sy’n eu helpu i gyflawni eu swyddogaethau’n effeithiol ac sy’n cynnwys trefniadau rheoli risg. Mae archwilwyr yn amodi eu barn oherwydd methiant y cyngor i ddangos eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol.

23 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) yn rhoi hawliau amrywiol i etholwyr lleol mewn perthynas â chyfrifon cynghorau. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i arolygu'r cyfrifon a mynd i'r afael â chwestiynau neu wneud gwrthwynebiadau i eitem cyfrif i'r archwilydd allanol. Mae cynghorau lleol yn gyfrifol am helpu eu hetholwyr i arfer yr hawliau hyn ac am gadarnhau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol eu bod wedi gwneud hynny (honiad 4). Un ffordd o wneud hyn yw rhoi hysbyseb mewn man amlwg yn dweud wrth y cyhoedd y bydd yr archwiliad yn cael ei gynnal yn fuan. Mewn 28 o achosion (pedwar y cant), nododd archwilwyr fod cynghorau wedi methu â chyflawni eu dyletswydd statudol i hysbysebu'r archwiliad neu wneud trefniadau digonol i etholwyr lleol arfer eu hawliau. Fodd bynnag, nid rôl yr archwilydd yw gorfodi hawliau etholwyr gan mai mater i'r etholwr fynd ar ei drywydd drwy'r llysoedd yw hynny.

24 Yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, mae cynghorau'n cadarnhau eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad oes unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu bosibl â chyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar y cyngor (honiad 3). Mae ateb cadarnhaol i'r honiad hwn yn golygu mai dim ond y pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud y mae'r Cyngor wedi eu gwneud a'i fod wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.

25 Mae archwilwyr wedi nodi'r materion canlynol mewn perthynas â honiad 3. Ym mhob un o'r achosion hyn, cadarnhaodd y cyngor ei fod yn bodloni gofynion ond mae'r archwilydd wedi canfod nad yw'n gwneud hynny.  Er enghraifft:

a Trefniadau Talu Wrth Ennill (TWE): Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn cyflogi clerc ac yn talu cyflog neu lwfansau eraill iddo. Rhaid iddynt felly weithredu system TWE er mwyn didynnu treth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol cyn ei dalu. Nododd archwilwyr fethiannau wrth weithredu TWE mewn 21 o gynghorau. Roedd TWE hefyd yn fater pwysig a nodwyd yn 2011-12.

b Cod Ymddygiad Aelodau: Rhaid i gynghorau sicrhau bod pob aelod wedi cytuno i weithredu yn unol â chod ymddygiad aelodau.

c Awdurdod statudol i wario: Fel cyrff statudol, dim ond os oes ganddynt bŵer statudol i weithredu y gall cynghorau lleol wneud hynny. Mae archwilwyr wedi nodi bod cynghorau wedi cyflawni gwariant heb sicrhau bod ganddynt y lefel briodol o bŵer cyfreithiol i gyflawni'r gwariant hwnnw neu nad ydynt wedi cymhwyso'r pŵer statudol cywir i gyflawni gwariant. Mae hyn yn awgrymu nad oes gan rai cynghorau ddealltwriaeth glir o'u pwerau a'u cyfrifoldebau statudol.

ch Derbyniadau cyfalaf: Mae rheolau statudol yn gysylltiedig â derbyniadau o waredu asedau yn ymwneud â sut y gall y cyngor ddefnyddio'r arian. Yng Nghyngor Tref Cydweli, mae'r archwilydd wedi amodi'r farn am drydedd blwyddyn am fod y cyngor yn gwneud defnydd amhriodol o'r arian hwn, ac yn mynd yn groes i reoliadau statudol. O ganlyniad, mae'r archwilydd wedi cyhoeddi argymhellion statudol er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn (gweler paragraffau 37 i 39).

## Cyflawnodd archwilwyr eu dyletswyddau statudol i wneud argymhellion statudol i wneud argymhellion mewn tri chyngor mewn perthynas â chyfrifon 2012-13

26 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae archwilwyr yn cyflwyno eu canfyddiadau a'u hargymhellion i'r cyngor drwy'r dystysgrif archwilio (y farn archwilio) ac adroddiad i'r cyngor. Mae archwilwyr yn cyflwyno'r adroddiadau hyn i'r cyngor ar ddiwedd yr archwiliad er mwyn nodi canfyddiadau ac argymhellion yr archwilydd. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annog archwilwyr i ddatrys problemau gyda chynghorau lle bynnag y bo'n bosibl drwy'r ffyrdd hyn.

27 Fodd bynnag, nid yw bob amser yn bosibl datrys problemau, neu eu datrys mewn modd amserol, ac yn unol â'i ddyletswyddau o dan y ddeddf, rhaid i'r archwilydd bob amser gadw'r opsiwn i gyflwyno ei ganfyddiadau a'i argymhellion yn ehangach. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cefnogi archwilwyr sy'n ystyried bod angen cyflwyno adroddiad er budd y cyhoedd a/neu wneud argymhellion o dan adran 25 o'r Ddeddf. Rhaid i gynghorau drafod adroddiadau budd y cyhoedd ac argymhellion o dan adran 25 mewn cyfarfodydd cyhoeddus a chyhoeddi eu hymateb i'r adroddiad neu'r argymhellion.

### Ni gyhoeddwyd unrhyw adroddiadau er budd y cyhoedd yn 2012-13

28 Ni chyflwynwyd unrhyw adroddiadau er budd y cyhoedd gan archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas ag archwiliadau 2012-13.

### Gwnaeth archwilwyr argymhellion statudol i dri chyngor

29 Pan fydd archwilydd yn gwneud argymhelliad o dan adran 25 o'r Ddeddf, rhaid i'r cyngor ystyried yr argymhelliad/argymhellion mewn cyfarfod cyhoeddus. Yn y cyfarfod, rhaid i'r cyngor ystyried yr argymhelliad/argymhellion, p'un a ddylid ei dderbyn/eu derbyn a pha gamau i'w cymryd mewn ymateb i'r argymhelliad/argymhellion, os o gwbl. Gwnaeth archwilwyr argymhellion ysgrifenedig o dan adran 25 i dri chyngor yn ystod archwiliadau 2012-13.

#### Cyngor Cymuned Banwy

30 Ym mis Rhagfyr 2013, cyhoeddodd yr archwilydd penodedig adroddiad i Gyngor Cymuned Banwy yn nodi diffygion sylweddol mewn trefniadau llywodraethu ariannol yn dyddio'n ôl i 2010. Bu oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad oherwydd ymchwiliad hir gan yr heddlu i bryderon ynghylch cywirdeb cofnodion ariannol y cyngor.

31 Canfu'r archwilydd y canlynol:

a Nododd ymchwiliad gan Heddlu Dyfed Powys feysydd lle roedd trefniadau cadw cofnodion gwael ond ni welwyd tystiolaeth o droseddoldeb.

b Methodd y Clerc blaenorol â chyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â threfniadau rheoli ariannol y cyngor. Roedd Clerc blaenorol y cyngor wedi methu â chynnal cofnodion cyfrifyddu priodol ac wedi tynnu tudalennau o lyfr arian parod y cyngor. Roedd nifer o achosion o afreoleidd-dra nas eglurwyd mewn sieciau a godwyd gan y Clerc blaenorol.

c Roedd afreoleidd-dra mewn perthynas â chwblhau Ffurflen Flynyddol y cyngor. Roedd y ffurflenni blynyddol a gyflwynwyd i'r archwilydd penodedig yn cynnwys adroddiad archwilio mewnol a gwblhawyd yn llawn wedi'i lofnodi, mae'n debyg, gan archwilydd mewnol y cyngor. Fodd bynnag, mewn datganiad i'r heddlu, cadarnhaodd yr archwilydd mewnol nad oedd wedi cynnal unrhyw waith archwilio mewnol nac wedi llofnodi unrhyw ffurflenni blynyddol ers sawl blwyddyn.

ch Methodd y cyngor â chyflawni ei gyfrifoldebau i roi trefniadau llywodraethu a goruchwylio priodol ar waith. Ni chafodd y cyngor adroddiadau digonol ar ei gyllid yn rheolaidd. Roedd y cyngor wedi mabwysiadu arfer o raglofnodi sieciau a oedd yn golygu ei bod yn wynebu risg o golli arian drwy dwyll. Roedd y cyngor wedi methu â chynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol yn ystod y cyfnod yn arwain at 2009-10 ac yn cynnwys y flwyddyn honno. Nid oedd y cyngor yn ymwybodol o'r ffaith nad oedd unrhyw swyddogaeth archwilio mewnol ar waith mewn gwirionedd ac roedd yn dibynnu'n llwyr ar y sicrwydd a roddwyd gan yr adroddiad archwilio mewnol yn y ffurflenni blynyddol.

d Mae'r cyngor wedi methu â chydymffurfio â'i ddyletswyddau i baratoi a chymeradwyo ei ddatganiad o gyfrifon. Nid oedd y cyngor yn gallu dangos yn briodol ei fod wedi cymeradwyo'r ffurflen flynyddol yn cynnwys y cyfrifon blynyddol. At hynny, roedd Cadeirydd y cyngor wedi gwrthod llofnodi'r cyfrifon i gadarnhau bod y cyngor wedi'u cymeradwyo.

32 Gwnaeth yr archwilydd penodedig yr argymhellion canlynol:

a Dylai'r cyngor adolygu natur ac ansawdd y cofnodion cyfrifyddu a sicrhau eu bod yn addas at y diben, eu bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, a'u bod yn gyflawn.

b Dylai'r cyngor roi trefniadau ar waith i gael adroddiadau am wybodaeth ariannol fanwl yn nodi sefyllfa ariannol y cyngor yn rheolaidd.

c Rhaid i aelodau sicrhau na fyddant yn llofnodi sieciau nad ydynt wedi'u cwblhau'n llawn ac wedi'u hategu gan dderbynebau neu anfonebau priodol.

ch Rhaid i'r cyngor roi trefniadau ar waith ar gyfer gwaith archwilio mewnol er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

d Rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn cwrdd ag archwilwyr mewnol ac yn adolygu'r gwaith a wnaed ganddynt bob blwyddyn.

dd Rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 wrth baratoi a chymeradwyo ei gyfrifon blynyddol.

e Rhaid i'r cyngor sicrhau bod cofnodion ei gyfarfodydd:

- yn cofnodi penderfyniadau a wnaed a chamau y cytunwyd arnynt gan y cyngor yn briodol; ac

– yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a nodir yn atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

33 Hyd yma, nid yw'r archwilydd penodedig wedi cael datganiad o gyfrifon wedi'i lofnodi gan y cyngor o hyd, ac mae'r archwiliad o gyfrifon 2010 yn parhau ar agor. Ni ellir gwneud rhagor o gynnydd o ran yr archwiliadau o flynyddoedd dilynol hyd nes y bydd y cyngor yn darparu cyfrifon wedi'u llofnodi ar gyfer 2010. Mae'r archwilydd wrthi'n ystyried pa gamau pellach y dylid eu cymryd er mwyn datrys y sefyllfa hon.

## Cyngor Cymuned St Florence

34 Ym mis Ebrill 2014, cyhoeddodd yr archwilydd penodedig adroddiad i Gyngor Cymuned St Florence yn nodi diffygion sylweddol mewn trefniadau llywodraethu ariannol yn cwmpasu blynyddoedd ariannol 2010-11 i 2012-13.

35 Canfu'r archwilydd y canlynol:

a Nododd ymchwiliad gan Heddlu Dyfed Powys feysydd lle roedd trefniadau cadw cofnodion gwael a diffyg tryloywder mewn perthynas â gweithdrefnau'r cyngor. Fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi honiadau bod y Clerc blaenorol wedi methu'n fwriadol â chynnal a chadw'r llyfrau a'r cofnodion er mwyn cuddio unrhyw droseddoldeb.

b Roedd y Clerc blaenorol wedi methu â chynnal cofnodion cyfrifyddu priodol ar ran y cyngor. Bu'n rhaid i archwilydd mewnol y cyngor baratoi llyfr arian parod gan ddefnyddio cyfriflenni banc fel y brif ffynhonnell wybodaeth oherwydd diffyg cofnodion eraill. At hynny, roedd y Clerc blaenorol wedi methu â chynnwys unrhyw gofnod o incwm yn y cofnodion a gadwyd. Ni allai'r Clerc blaenorol ychwaith ddarparu copïau o anfonebau ac ati fel tystiolaeth ategol o daliadau a wnaed.

c Methodd y cyngor â chyflawni ei gyfrifoldebau i roi trefniadau llywodraethu a goruchwylio priodol ar waith. Ni chafodd y cyngor adroddiadau digonol ar ei gyllid yn rheolaidd. Yr unig wybodaeth ariannol gadarn a gyflwynwyd i'r Cyngor oed cyllideb a gafwyd adeg pennu'r praesept blynyddol a rhestr a gyflwynwyd ymhob un o gyfarfodydd y cyngor. At hynny, nid oedd y cyngor yn ymwybodol nad oedd ganddo swyddogaeth archwilio mewnol fel sy'n ofynnol gan y gyfraith.

ch Gwariodd y cyngor yn anghyfreithlon drwy gyflogi cynghorydd mewn swydd gyflogedig yn y cyngor.

d Roedd y cyngor wedi methu â gwneud trefniadau priodol i reoli risg.

dd Roedd y cyngor wedi methu â pharatoi ei gyfrifon yn unol â'r amserlen a bennwyd gan reoliadau.

36 Gwnaeth yr archwilydd penodedig yr argymhellion canlynol:

- a Dylai'r cyngor adolygu natur ac ansawdd y cofnodion cyfrifyddu a sicrhau eu bod yn addas at y diben, eu bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, a'u bod yn gyflawn. Rhaid i'r cyngor hefyd sicrhau ei fod yn cadw cofnodion.
- b Dylai'r cyngor roi trefniadau ar waith i gael adroddiadau am wybodaeth ariannol fanwl yn nodi sefyllfa ariannol y cyngor yn rheolaidd.
- c Rhaid i'r cyngor roi trefniadau ar waith ar gyfer gwaith archwilio mewnol er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.
- ch Rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn cwrdd ag archwilwyr mewnol ac yn adolygu'r gwaith a wnaed ganddynt bob blwyddyn.
- d Rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 wrth baratoi a chymeradwyo ei gyfrifon blynyddol.
- dd Rhaid i'r cyngor adolygu ei bolisi yswiriant a sicrhau bod ganddo warant ffyddlondeb digonol.
- e Rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn cynnal adolygiad o'i reolaethau mewnol sy'n cynnwys rheoli risg bob blwyddyn.
- f Rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn sefydlu cofrestr asedau a'i fod yn adolygu'r gofrestr hon bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei bod yn gyfredol ac yn gyflawn.

## Cyngor Tref Cydweli

37 Ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddodd yr archwilydd penodedig adroddiad i Gyngor Tref Cydweli yn nodi diffygion sylweddol mewn trefniadau llywodraethu ariannol yn cwmpasu blynyddoedd ariannol 2010-11 i 2012-13.

38 Canfu'r archwilydd y canlynol:

- a Roedd y cyngor wedi cymhwyso adnoddau cyfalaf cyfyngedig gwerth o leiaf £30,000 yn anghyfreithlon er mwyn ariannu gwariant grant refeniw. Roedd y cyngor wedi gwaredu eiddo yn flaenorol, a diffinnir elw'r broses honno yn 'dderbyniadau cyfalaf' o dan y gyfraith. Mae'r gyfraith yn nodi mai dim ond at ddibenion penodol y gellir defnyddio derbyniadau cyfalaf. Er i gyfrifydd adrodd y cyngor roi cyngor iddo yn cefnogi'r defnydd o dderbyniadau cyfalaf, roedd y cyngor hwnnw'n ddiffygiol am nad oedd yn ystyried rheoliad penodol sy'n gwahardd cynghorau cymuned i bob pwrpas rhag defnyddio derbyniadau cyfalaf i ariannu grantiau i gyrff eraill.
- b O ganlyniad i hyn, mae angen ailgyflenwi cronfeydd cyfalaf wrth gefn y cyngor o gronfeydd cyffredinol wrth gefn y cyngor.

c Er bod y mater hwn wedi'i godi gyda'r cyngor yn y ddau adroddiad archwilio blaenorol, roedd wedi methu â chymryd camau priodol ac wedi mynd i wariant anghyfreithlon pellach.

ch Wrth bennu ei gyllideb, roedd y cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r gyfraith ac ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir neu sydd eu hangen gan y cyngor.

d Ni all y cyngor ddiogelu ei asedau'n llawn am nad yw'n cynnal cofrestr asedau ddigonol a fyddai'n ei alluogi i nodi asedau a ddelir. Mae hyn yn cynyddu'r risg y caiff asedau eu colli neu eu camddefnyddio.

dd Mae cynghorau cymuned yn gyrff statudol a dim ond lle y caniateir iddynt wneud hynny'n benodol o dan y gyfraith y gallant fynd i wariant. Nid yw'r cyngor yn ystyried fel mater o drefn pa bŵer statudol y mae'n dibynnu arno ar gyfer eitemau anarferol o wariant.

e Methodd y cyngor â chofrestru'n briodol fel cyflogwr gyda CThEM ac aeth i wariant diangen ar ffurf dirwy o £900.

39 Gwnaeth yr archwilydd penodedig yr argymhellion canlynol:

a rhaid adfer y gronfa gyfalaf wrth gefn yn unol â'r swm a gymerwyd at ddibenion refeniw cyn gynted â phosibl o gronfeydd refeniw wrth gefn.

b rhaid i'r cyngor gymryd camau yn dilyn hyn ac unrhyw adroddiadau eraill gan archwilwyr mewnol ac allanol;

c rhaid i'r cyngor ystyried lefel y cronfeydd cyffredinol a chyfalaf wrth gefn wrth bennu ei gyllideb nesaf;

ch rhaid i'r cyngor sefydlu cofrestr asedau sefydlog cyn gynted â phosibl;

d rhaid i lefel y cronfeydd cyffredinol wrth gefn gael ei chynnwys yn y gyllideb nesaf a bennir gan y cyngor tref;

dd rhaid i bwerau gwario gael eu hystyried a'u nodi wrth gymeradwyo taliadau neu awdurdodi gwariant; a

e dylai pob ffurflen TWE i CThEM gael ei llenwi ar amser er mwyn osgoi cosbau.

40 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn argymell y dylai pob cyngor ystyried y materion hyn a pha un a allant fod yn gymwys iddynt hwy a pha un a oes gwersi y gall cynghorau unigol eu dysgu o'r argymhellion statudol hyn.

Rhan 2

# Er mwyn helpu cynghorau i wella eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu, bydd archwilwyr cynghorau lleol, ar gyfer archwiliad 2015-16, yn archwilio trefniadau cynghorau ar gyfer pennu a monitro cyllidebau ac ar gyfer defnyddio gwasanaethau archwilwyr mewnol



41 Nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Medi 2013, *Gwella Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol: Materion yn deillio o Archwilio Cyfrifon Cyngor Cymuned 2011-12*, newidiadau i'r trefniadau archwilio ar gyfer cynghorau tref a chymuned mewn perthynas ag archwiliad 2015-16.

42 Bydd y trefniadau newydd yn canolbwyntio'n fwy ar lywodraethu a bydd Datganiad Llywodraethu Blynyddol estynedig yn cynnwys adran newydd yn nodi meysydd 'thematig' i'w hadolygu ym mhob cyngor. Bydd y themâu hyn yn amrywio bob blwyddyn ac yn mynd i'r afael â phryderon sy'n deillio o ganfyddiadau archwiliad.

43 Er mwyn galluogi cynghorau lleol i ddatblygu eu trefniadau llywodraethu, bydd cynghorau cymuned a thref yn cael gwybod ymlaen llaw pa feysydd penodol fydd yn rhan o'r adolygiad thematig bob blwyddyn. Bydd y trefniant hwn yn galluogi cynghorau i nodi meysydd lle mae angen iddynt wella eu trefniadau ac i wneud unrhyw welliannau angenrheidiol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, dylid nodi na ddylai hyn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau wneud unrhyw waith ychwanegol sylweddol. Dim ond tystiolaeth a ddylai fod ar gael yn hawdd ym mhob cyngor y bydd archwilwyr yn gofyn amdani.

## Bydd archwilwyr yn archwilio trefniadau cynghorau ar gyfer pennu a monitro cyllidebau

44 Rhaid i gynghorau bennu eu cyllideb bob blwyddyn yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1989 (DC LlL 1989). Ceir canllawiau ar bennu cyllideb yn y Canllaw i Ymarferwyr. Gofynnir i gynghorau gadarnhau eu bod wedi pennu'r gyllideb yn unol â'r ddeddf a'u bod wedi monitro incwm a gwariant yn erbyn y gyllideb yn ystod y flwyddyn.

45 Bydd archwilwyr yn disgwyl i gynghorau allu darparu'r dystiolaeth ganlynol i gefnogi honiad cadarnhaol:

- a copi o gyllideb a baratowyd yn unol â DC LlL 1989;
- b copi o gofnodion cyfarfod y cyngor lle cafodd y gyllideb ei chymeradwyo a'r praesept ei bennu;
- c copi o'r archeb praesept a gyflwynwyd i'r awdurdod bilio;
- ch enghreifftiau o adroddiadau monitro cyllidebol i'r cyngor; a
- d chopïau o gofnodion cyfarfodydd cyngor yn nodi sut mae'r cyngor yn monitro ei incwm a'i wariant yn erbyn ei gyllideb.

## Bydd archwilwyr yn adolygu'r telerau ymgysylltu ar gyfer archwilwyr mewnol

46 Mae rheoliadau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor cymuned gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'i gofnodion cyfrifyddu a'i reolaethau mewnol. Ceir canllawiau ar waith archwilio mewnol yn y Canllaw i Ymarferwyr. Gofynnir i gynghorau hefyd gadarnhau eu bod wedi sicrhau bod archwiliad mewnol y cyngor yn annibynnol ar broses gwneud penderfyniadau beunyddiol y cyngor a'r gwaith o gynnal a chadw cofnodion cyfrifyddu.

47 Bydd archwilwyr yn disgwyl i gynghorau allu darparu'r dystiolaeth ganlynol i gefnogi eu honiadau:

a adroddiad y cyngor ar ei adolygiad o'r archwiliad mewnol; a

b llythyr ymrwymo neu delerau ymgysylltu'r archwiliad mewnol a gyflwynwyd i'r archwilydd mewnol.

# Atodiadau

## Atodiad 1 - Honiadau Datganiad Llywodraethu Blynyddol



# Atodiad 1
# Honiadau Datganiad Llywodraethu Blynyddol

| Honiad | Mae ateb cadarnhaol yn golygu bod y cyngor wedi |
|---|---|
| Rydym wedi cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) ac arferion priodol. | Paratoi ei ddatganiadau cyfrifyddu yn y ffordd a ragnodir gan y gyfraith. |
| Rydym wedi cynnal system ddigonol o reolaeth fewnol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a nodi twyll a llygredd, ac wedi adolygu ei heffeithiolrwydd. | Gwneud trefniadau priodol ac wedi derbyn cyfrifoldeb am ddiogelu arian ac adnoddau'r cyhoedd yn ei ofal. |
| Rydym wedi cymryd camau rhesymol i roi sicrwydd i'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu bosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r cyngor i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol. | Gwneud y pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud yn unig ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny. |
| Rydym wedi cynnig cyfleoedd priodol i arfer hawliau etholwyr yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd). | Rhoi'r cyfle i bob unigolyn dan sylw archwilio a gofyn cwestiynau am gyfrifon y cyngor. |
| Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r cyngor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen. | Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r cyngor ac wedi delio â hwy'n briodol. |
| Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol mewn perthynas â chofnodion cyfrifyddu a systemau rheoli'r cyngor drwy'r flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol. | Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y cyngor. |
| Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol. | Ymateb i faterion a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol. |
| Rydym wedi ystyried pa un yw unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y cyngor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu. | Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol. |
| Cronfeydd ymddiriedolaeth - yn rhinwedd ein swydd fel ymddiriedolwr, rydym wedi:<br>• Cyflawni ein cyfrifoldeb mewn perthynas ag atebolrwydd am y gronfa/cronfeydd gan gynnwys cyflwyno adroddiadau ariannol a, lle y bo angen, cynnal archwiliadau annibynnol. | Cyflawni ei gyfrifoldebau yn rhinwedd ei swydd fel unig reolwr-ymddiriedolwr ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaethau lleol. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk